Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dyfed-Powys

# Adroddiad ar Hapsamplu Cwynion

**Dyddiad: Chwarter 4 Ionawr – Mawrth 2026**

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ 2

**Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu** ........ 2

**Crynodeb o'r canfyddiadau** ........ 2

*Cadarnhaol* ........ 2

*Meysydd i'w gwella* ........ 3

**Canfyddiadau'r Hapsampl** ........ 3

## Cyflwyniad

Hapsamplwyd nifer o achosion cwynion gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2026.

Adolygodd yr SCHTh gyfanswm o 15 o achosion cwynion caeedig a ddewiswyd ar hap a gafodd eu trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP) rhwng Hydref a Rhagfyr 2025. Prif ddiben y gwaith craffu hwn yw adolygu'n annibynnol bod y broses o gofnodi ac ymdrin â chwynion yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a bod y gwasanaeth a ddarperir i'r achwynydd yn rhesymol a chymesur.

## Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Bob chwarter, mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn casglu data gan Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â sut maen nhw'n ymdrin â chwynion. Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn defnyddio'r data hyn i gynhyrchu bwletinau gwybodaeth. Mae'r rhain yn nodi perfformiad yn erbyn nifer o fesurau ac yn cymharu data pob heddlu â chyfartaledd yr heddlu mwyaf tebyg iddynt, a'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer pob heddlu. Mae'r data ar gael ar wefan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yma: Llyfrgell Cyhoeddiadau | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

## Crynodeb o'r canfyddiadau

*Cadarnhaol*

- Roedd cofnodion y cyswllt cychwynnol â'r achwynydd gan yr ASP yn fanwl ac yn cynnwys digon o wybodaeth i ddeall y camau a gymerwyd.
- O'r 15 achos a ystyriwyd, penderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod 11 wedi cael eu trin yn rhesymol ac yn gymesur.
- Nodwyd un achos fel enghraifft o arfer gorau o gŵyn yn cael ei thrin y tu allan i atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

*Meysydd i'w gwella*

- Anghysondebau wrth ymdrin â chwynion. Dylai goruchwylwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ASP am unrhyw gamau gweithredu y maent wedi'u dilyn/canlyniad unrhyw gŵyn yr aed i'r afael â hi'n anffurfiol y tu allan i'r atodlen, ond nid yw hyn yn cael ei wneud fel mater o drefn. O ganlyniad, nid oedd yr SCHTh yn gallu pennu canlyniad dau o'r achosion.
- O fewn tri o'r achosion, gellid bod wedi gwella amseroldeb cyswllt cychwynnol yr ASP â'r gŵyn.
- O fewn rhai o'r achosion, nodwyd, yn yr ymatebion uniongyrchol i'r achwynwyr, na chawsant wybod yn y llythyr, pe byddent yn parhau i fod yn anfodlon, y gallent ofyn am gofnodi eu cwynion yn ffurfiol.
- O'r 15 achos a adolygwyd gan yr SCHTh, penderfynwyd nad oedd dau achos wedi'u trin mewn modd rhesymol a chymesur.
- O fewn un achos, gellir dehongli tôn yr ymateb e-bost gan yr ASP fel un swta, a allai fod wedi effeithio ar benderfyniad yr achwynydd a'i atal rhag bwrw ymlaen â'i gŵyn.

**Canfyddiadau'r Hapsampl**

| Rhif yr achos | Categori cwyn | Math o gŵyn | Crynodeb o'r gŵyn | Meysydd i'w gwella / Canfyddiadau cadarnhaol | Canlyniad yn rhesymol ac yn gymesur? |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Pwerau, polisïau a gweithdrefnau'r heddlu | Roedd swyddog wedi arestio a gwthio'r achwynydd ar lwybr cyhoeddus heb reswm. | • Cyswllt cychwynnol amserol wedi'i wneud gan yr ASP.<br>• Ni ddaeth ymateb gan yr achwynydd i law ar ôl saith diwrnod i'r cyswllt cychwynnol gan yr ASP, felly ystyriwyd ei bod yn briodol cau. | Ydy |
| **2** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Mae'r achwynydd eisiau dychwelyd eiddo a gedwir sy'n eiddo i'w frawd/chwaer. Ar ôl cael yr eiddo yn | • Rhoddwyd manylion y cyswllt cychwynnol gan yr ASP. Roedd hyn yn cynnwys galwad ffôn a ddilynwyd gan neges e-bost yn ddiweddarach. Ystyriodd yr SCHTh fod hyn yn arfer da er | Ydy |

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ôl, mae'n honni bod y ffôn wedi'i ddifrodi. | mwyn sicrhau bod yr achwynydd yn cael yr wybodaeth lawn am y camau gweithredu a bod disgwyliadau'n cael eu rheoli.<br>• Roedd y sawl a oedd yn trin y gŵyn yn cysylltu'n aml â'r achwynydd. | |
| **3** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Teimlai'r achwynydd iddo gael ei anwybyddu gan Heddlu Dyfed-Powys pan oedd ei riant mewn argyfwng iechyd meddwl. | • Dim cyswllt pellach gan yr achwynydd ar ôl i'r gŵyn gael ei chofnodi'n ffurfiol. Cytunodd yr SCHTh felly ei bod yn briodol peidio â chymryd unrhyw gamau pellach.<br>• Nodwyd bod yr ASP wedi aros dros flwyddyn i gau'r gŵyn ac na chanfuwyd unrhyw neges e-bost ddilynol at yr achwynydd. Dylid ystyried y rhain yn feysydd i'w gwella. | Ydy |
| **4** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Mae'r achwynydd yn anfodlon ar ymateb yr heddlu i adroddiadau am gerbyd wedi'i barcio heb dreth, heb yswiriant ac nad yw'n addas ar gyfer y ffordd fawr. | • Llythyr canlyniad y tu allan i atodlen 3 wedi'i anfon.<br>• Roedd yr ymatebion a ddarparwyd i ymholiadau'r achwynydd yn deg ac yn addysgiadol.<br>• Roedd y ffordd y gwnaeth y Tîm Plismona Bro ymdrin â chwynion yn gadarnhaol. | Ydy |
| **5** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Trin neu ddifrod i eiddo/adeilad | Yn ystod arestiad, mae'r achwynydd yn honni bod batri ei e-feic ar goll. | • Noder fod y canlyniad y tu allan i atodlen 3 wedi aros ar agor am 58 diwrnod, heb unrhyw resymu.<br>• Cadarnhawyd bod y cwynwr yn ceisio iawndal, felly dylid bod wedi ymdrin â'r gŵyn yn amserol a'i gyfeirio at yr adran gyfreithiol. | Nac ydy |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **6** | Y tu allan i atodlen 3: plismona bro | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Anfodlon ar y ffordd y mae'r heddlu'n mynd i'r afael â chyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ystâd yr achwynydd | • Gellid bod wedi gwella amseroldeb cydnabod y gŵyn (dros fis).<br>• Ni ddarparwyd canlyniad gan ei fod wedi cael ei drin o dan gyfeirnod cwyn gwahanol. | Methu penderfynu |
| **7** | Y tu allan i atodlen 3: plismona bro | Pwerau, polisïau a gweithdrefnau'r heddlu | Mae'r achwynydd yn anfodlon ar ymddygiad y swyddog a'r pŵer i fynd i mewn i'w eiddo. | • Wedi'i drin trwy lythyr datrysiad ar unwaith.<br>• Nid yw'r llythyr yn cynghori'r achwynydd, os ydyw'n parhau i fod yn anfodlon, fod ganddo'r hawl i gael cofnodi ei gŵyn.<br>• Adolygodd SCHTh y camera corff, ni chodwyd unrhyw bryderon. | Ydy |
| **8** | Y tu allan i atodlen 3: plismona bro | Pwerau, polisïau a gweithdrefnau'r heddlu | Anfodlon nad yw'r heddlu'n gorfodi achos o rwystro'r briffordd. | • Wedi'i drin drwy lythyr datrysiad ar unwaith a oedd yn cynnwys manylion ynghylch gofyn i'r gŵyn gael ei chofnodi'n ffurfiol. | Ydy |
| **9** | Y tu allan i atodlen 3: plismona bro | Pwerau, polisïau a gweithdrefnau'r heddlu | Anfodlon ar ymchwiliad a mynediad i'w eiddo. | • Nodwyd yr achos hwn fel enghraifft o arfer gorau.<br>• Ymdriniwyd â'r gŵyn drwy lythyr datrysiad ar unwaith.<br>• Mae'r sawl sy'n trin y gŵyn wedi gofyn i swyddogion gyfathrebu'n uniongyrchol â'r achwynydd.<br>• Mae swyddogion wedi siarad yn uniongyrchol â'r achwynydd ac wedi cyfleu'r camau a gymerwyd gyda'r ASP. | Ydy |
| **10** | Y tu allan i atodlen 3: plismona bro | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Anfodlon â phlismona ymddygiad gwrthgymdeithasol. | • Wedi'i drin trwy lythyr datrysiad ar unwaith.<br>• Roedd cwyn wedi'i hanfon at y Tîm Plismona Bro i roi esboniad. | Methu penderfynu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Ni gofnodwyd ymateb gan y Tîm Plismona Bro i'r ASP yn cadarnhau pa gamau a gymerwyd. | |
| **11** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Mae'r achwynydd eisiau ailagor ymchwiliad i ladrad; gan honni cydgynllwynio â swyddogion sy'n gysylltiedig â'r troseddwr honedig. | • Wedi cael ei drin trwy ddatrysiad ar unwaith a'i basio i oruchwyliwr y swyddogion.<br>• Cynghorodd y goruchwyliwr y bydd yr ymchwiliad yn cael ei ailagor er mwyn canfod unrhyw lwybrau ymholi. Cadarnhaol bod y camau a gymerwyd wedi cael eu hadrodd yn ôl i'r ASP.<br>• Ni nodwyd yn y llythyr datrysiad ar unwaith, os yw'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon, y gall ofyn i'w gwyn gael ei chofnodi'n ffurfiol. | Ydy |
| **12** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Anfodlon ar ganlyniad hawl dioddefwr i adolygiad. | • Oedi hir cyn i'r ASP gydnabod y gŵyn (51 diwrnod) gan arwain at yr achwynydd yn anfon negeseuon dilynol.<br>• Mae'n ymddangos bod tôn yr ymateb mewn neges e-bost gan yr ASP yn ansensitif o ystyried natur yr honiad a gellir ei ddehongli fel un swta, a allai fod wedi effeithio ar benderfyniad yr achwynydd a'i atal rhag fwrw ymlaen â'r gŵyn. | Nac ydy |
| **13** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Mae'r achwynydd yn anfodlon ar ymddygiad swyddog. | • Cymerodd 44 diwrnod i'r ASP gydnabod y gŵyn. Ystyrid y gellid bod wedi gwella hyn.<br>• Ymdriniwyd â'r gŵyn drwy ddatrysiad ar unwaith. | Ydy |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Mae'n ymddangos bod yr achwynydd yn fodlon ar y canlyniad. | |
| **15** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaeth | Anfodlon ar hyd yr ymchwiliad i adroddiad o drosedd gasineb. | • Roedd llythyr canlyniad datrysiad ar unwaith yn cynnwys gwybodaeth am yr hawl i gael cofnodi ei gŵyn yn ffurfiol. | Ydy |
| **16** | Y tu allan i atodlen 3: cyffredinol | Pwerau, polisïau a gweithdrefnau'r heddlu | Pryder ynghylch gorfodi gorchymyn atal. | • Ni ddaeth ymateb gan yr achwynydd i law, felly ystyrir yn briodol peidio â chymryd camau pellach. | Ydy |

Cyflwynir yr adroddiad hwn i fwrdd sicrwydd yr ASP ar gyfer goruchwylio ac er mwyn cyflwyno gwybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth am fwrdd sicrwydd yr ASP ar gael ar wefan SCHTh yma: [Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys]